



# Nodion Seion

## Nadolig 2018

---

“Yr wyf yn cyhoeddi i chwi y newydd da am lawenydd mawr a ddaw i’r holl bobl:  
ganwyd i chwi heddiw yn nhref Dafydd, Waredwr, yr hwn yw’r Meseia, yr Arglwydd.”

(Luc 2 ad. 10-11)

---

### Mae’n Wir

‘Mae’n wir,’ medd bugeiliaid.

Wrth fynd ato Ef,

‘Fe glywsom y newydd

Gan angel o’r nef;

Rhaid teithio i Fethlem

Lle ganed Mab Duw

Mae’n rhaid ei addoli,

Ein Ceidwad ni yw.’

‘Mae’n wir,’ medd y doethion

Wrth syllu i’r nen,

‘Mae’r seren ryfeddol

Yn ddisglair uwchben;

Rhaid inni ei geisio

I’w foli o hyd,

Fe’i ganed yn Frenin

Brenhinoedd y byd.’

‘Mae’n wir,’ meddai Joseff,

‘Mae’n wir,’ meddai Mair,

Rhoed inni’r addewid

A chredwn y Gair;

Mae bellach yn gorwedd

Mewn preseb mor glyd,

Yn faban bach annwyl,

Gwaredwr y byd.’

*Mae’n wir,’ medd angylion,*

*A’u cân uwch y tir,*

*‘Mae’n wir,’ medd yr Arglwydd,*

*‘O! credwch, mae’n wir,’*

(W. Rhys Nicholas)

---

### Gweddï

Pan ddaw’r Nadolig yn ei dro o flwyddyn

i flwyddyn cawn ein temtio, Arglwydd, i

ddweud, “Rydym ni wedi clywed y stori hon

o’r blaen, Rydym ni’n ei gwybod ar ein cof.”

Maddau i ni, O Dad, ac atgoffa ni bod

gwahaniaeth rhwng gwranddo ar y stori a gadael

i’r neges siarad â ni a chael lle yn ein calonnau.

Arglwydd, helpa ni i weld ein hunain a’n

hagwedd ni yn cael ei phortreadu ym mywydau’r

bobl sy’n cymryd rhan yn stori’r Nadolig.

Nid oedd gan ŵr y llety lle i Ti yn ei gartref.

Arglwydd, helpa ni i beidio â llenwi’n bywydau

a phethau nad ydynt yn wir angenrheidiol--

cymaint o bethau sy’n dy gadw Di allan.

Arglwydd, ni welodd llawer o bobl Bethlehem

ogoniant geni Iesu Grist. Ond fe glywodd y

bugeiliaid gân yr angylion a daethant at y crud  
i’w addoli Ef.

Arglwydd, helpa ni i weld dy ogoniant ac

i’th glywed yn siarad â ni heddiw. Cymorth

ni i’th addoli bob dydd yn ein gwaith a’n

gwasanaeth i Ti a’n cyd-ddyn.

O Dad, blin a hir fu taith y doethion am gannoedd

o filltiroedd at y preseb ym Methlehem.

Arglwydd, fe ddysgaist Ti y bydd pob un sy’n dy

geisio mewn gwirionedd yn dy gael. Drwy bob

amheuaeth, gofid neu siom ar y daith paid â

gadael i ni fodloni nes dod o hyd i Ti.

Dad, fe ddaethant hwy ag anrhegion o aur a

thus a myrr i’r Baban Iesu.

Arglwydd, cynorthwya ni i ddod ag aur ein

hufudd-dod a thus ein haddoliad i Ti. Amen.

## Cyfrifon yr Eglwys

Dymuna'r Trysorydd a'r Ysgrifennydd Ariannol ddiolch yn ddiffuant am y cydweithrediad a gafwyd yn ystod y flwyddyn hon eto. Eleni byddwn yn cau llyfrau cyfrifon yr eglwys yn dilyn oedfa'r prynhawn 23 RHAGFYR. Bydd y cyfraniadau a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu cynnwys yng nghyfrifon 2019.

## Cymorth Cristnogol

Dydd Llun 5 Tachwedd cynhaliwyd Cinio Bara a Chaws yn y festri. Roedd yr elw yn £245.45c

## Rhodd

Derbyniwyd £405 er cof am y diweddar Athro Emeritws Ieuan Gwynedd Jones.

## Llongyfarchiadau

I Rhys Taylor ar ei briodas yn ddiweddar â Gwawr Jones yn Llamed. Pob dymuniad da. I Sophie Rudge ar ennill gradd meistr ym maes Cerddoriaeth.

## Cyfeiriad Newydd

Miss Ann Thomas, The Coach House, Cwmcynfelin.

## Cydymdeimlwn ag aelodau

### a gollodd anwyliad

Y Parchg, Andrew Lenny (ewythr a chefnwr), Mrs Rosemary Lenny (chwaer yng nghyfraith), Dr Huw Walters (cefnwr), Mr Peter Williams (chwaer yng nghyfraith), Miss Evelyn Jones (cyfnwr), Mrs Maud Farrow (priod), Mrs Ann Hughes (tad), Mrs Alison Jenkins (tad), Mrs Nona Davies (cefnwr).

## Yn yr ysbyty neu

### newydd dderbyn triniaeth

Mr Rendel Jones, Mrs Helena Rees, Mrs Beryl Llewelyn, Mrs Lynne Lewis, Mrs Joyce Evans, Mr Glyn Griffiths Jones.

## Y Dosbarth Beiblaidd

Cawn fwynhau cymdeithas braf yn y Dosbarth Beiblaidd yn wythnosol ar fore Iau. Croeso cynnes i bawb.

## Cwrdd Chwarter Cyfundeb Ceredigion

Cynhaliwyd Cwrdd Chwarter Cyfundeb

Ceredigion yng nghapel Nanternis ddydd Mercher, 28 Tachwedd. Roedd y gynhadledd yn y bore am 10.30 o'r gloch ac yna oedfa'r Cadeirydd yn y prynhawn am 2.00. Yn yr oedfa hon trosglwyddwyd y Beibl i'r Cadeirydd newydd, sef y Parchedig Andrew Lenny.

## Diaconiaid Newydd

Wrth fwrdd y Cymun ar fore Sul 2 Rhagfyr derbyniwyd Llinos Roberts-Young, Gwenda James, Peter Williams ac Owain Roberts yn ddiaconiaid. Diolchwn iddynt am eu parodwydd i ymgymryd â'r gwaith a dymunwn fendith Duw ar eu gwasanaeth i'r eglwys yn y dyfodol.

## Cwrdd Eglwys Seion 4 Tachwedd 2018

Cyflwynodd Mr Leon Gibson, Cadeirydd y Pwyllgor Bugeiliol, ei adroddiad ar y sefyllfa ddiweddaraf o ran sicrhau Gweinidog amser llawn i Ofalaeth newydd Seion a Bethel, Tal-y-bont.

Penderfyniad Pwyllgor yr Alwad a'r Pwyllgor Bugeiliol oedd gwahodd Elfed Lewis, Trawsfynydd a Gwilym Tudur, Caerdydd i bregethu yn y ddwy eglwys yn 2019 er mwyn rhoi cyfle i'r ddwy gynulleidfa wrando arnynt a'u cyfarfod.

Bellach, dyma'r trefniadau:

Elfed Lewis - Seion (bore a hwyr) 27 Ionawr; Bethel, Tal-y-bont, (bore) 31 Mawrth.

Gwilym Tudur - Seion (bore a hwyr) 24 Mawrth; Bethel, Tal-y-bont (bore a phrynhawn) 21 Ebrill.

Bydd Pwyllgor yr Alwad yn cyfarfod i adolygu'r sefyllfa a chyflwyno argymhellion i'r ddwy eglwys ar ôl y cyfarfodydd hyn.

## Trefn y Cymun

Ionawr (hwyr)  
Chwefror (bore)  
Mawrth (hwyr)

## Rota'r Cymun

Mae angen gwirfoddolwyr sy'n fodlon cael eu cynnwys ar y rota i baratoi'r Cymun. Ar gyfer un Sul y flwyddyn yn unig fydd hyn. Os allwch helpu, rhowch wybod i Gwenda James, os gwelwch yn dda.

E-bost: [gwenda\\_llan@yahoo.co.uk](mailto:gwenda_llan@yahoo.co.uk)

# Yr Ysgol Sul

## Oedfa Diolchgarwch

Ar fore Sul 14eg Hydref cynhaliwyd Oedfa Diolchgarwch yr Ysgol Sul. Yn wahanol i'r arfer cynhaliwyd yr oedfa yn y festri a rhoddodd hyn gyfle i ni wyluo ffilm a defnyddio Pwerbwynt gan Gymorth Cristnogol.



Yn ystod yr oedfa cawsom gwrdd ag Aster o Ethiopia. Mae Aster yn rhan o grŵp o fenywod sydd yn rhedeg siop yn y pentref. Gan fod ffermio a chynnal bywoliaeth o'r tir wedi mynd yn anoddach yn ddiweddar mae'r grŵp yma bellach yn defnyddio ynni solar i ganiatáu iddynt redeg rhewgell ar gyfer y siop a hefyd lampau solar ar gyfer bywyd bob dydd. Cawsom hefyd neges effeithiol a pherthnasol gan y Parchedig Tom Evans - lle bu cryn drafodaeth ar sut i rannu bariau siocled yn deg! Ar ddiwedd yr oedfa roedd croeso i bawb aros am baned a sgwrs. Gwnaed casgliad ariannol i Gymorth Cristnogol a hefyd gwnaed casgliad i Fanc Bwyd Penparcau. Cawsom gyfle i rannu gyda'n brodyr a'n chwiorydd ar draws y byd - a hefyd yn agosach i adre. Diolch i bawb am gymryd rhan - ac yn arbennig i'r dosbarth hŷn am drefnu'r dechnoleg!

## 'Dolig yn dod!

Byddwn yn cynnal Oedfa Nadolig yr Ysgol Sul am 4 o'r gloch ar brynhawn Sul y 16eg o Ragfyr. Gwneir casgliad arbennig at Apêl Madagasgar ac Elusen Macmillan. Bydd parti yn y Festri i ddilyn. Gwerthfawrogi pob cyfraniad tuag at y parti gan Mrs Eiry Evans.

## Dyddiadur yr Ysgol Sul

Rydym wedi cyhoeddi'r Suliau lle fydd yna Ysgol Sul ar ein tudalen Facebook ac wrth gwrs byddant yn cael eu cyhoeddi yn wythnosol. Ond er gwybodaeth ni fydd yna Ysgol Sul naill ben na'r llall i unrhyw wyliau ysgol yng Ngheredigion.

## Diolch o galon

Carwn gymryd y cyfle i ddiolch yn fawr iawn i'r tîm sydd wedi cymryd at y gwaith a'r cyfrifoldeb i ddysgu yn yr Ysgol Sul yn ddiweddar. Hebddyn nhw ni fyddem yn medru cwrrd o wythnos i wythnos. Ac wrth gwrs mae yna bob amser groeso mawr i aelodau newydd!

Os ydych yn teimlo yr hoffech helpu yna mae croeso mawr i chi wneud – cysylltwch â Mererid.

# I'ch Dyddiadur...

## Nos Lun, 17 Rhagfyr

**6.15** Gwahoddiad i ymuno â Christnogion eraill i ganu carolau o gylch wardiau Ysbyty Bronglais – cychwyn yng nghapel yr ysbyty am 6:15 o'r gloch. Bydd y Parchg Andrew Lenny, yn ôl ei arfer, yn ein tywys o gylch y wardiau.

## Nos Sul 20 Ionawr am 6 y.h.

**6.00** Gwasanaeth unedig Dwyieithog (yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol) yn Eglwys San Mihangel.

---

## Pregethwyr mis Rhagfyr

- 9** Karen Owen
- 16** Gwilym Tudur (bore) Oedfa Nadolig 4 y.h.
- 23** Y Parchg. John Roberts (bore)
- 25** Y Parchg. Tom Evans (bore)
- 30** Y Parchg. Peter Thomas 11 y.b. yn Bethel

## Pregethwyr mis Ionawr

- 6** Y Parchg. Peter Thomas (bore) ar y cyd yn Bethel, Y Parchg. Stuart Bell (hwyr)
- 13** Huw Roderick (bore), *I'w drefnu* (hwyr)
- 20** Y Parchg. Terry Edwards, Oedfa Unedig yn San Mihangel (hwyr)
- 27** Elfed Lewis

## Pregethwyr mis Chwefror

- 3** Y Parchg. Peter Thomas (bore) Y Parchg. Stuart Bell (hwyr)
- 10** Huw Roderick (bore) Beti Griffiths (hwyr)
- 17** Ffred Francis
- 24** Wynfford Ellis Owen

## Pregethwyr mis Mawrth

- 3** Y Parchg. Peter Thomas (bore) ar y cyd yn Bethel, Y Parchg. Stuart Bell (hwyr)
- 10** *I'w drefnu*
- 17** Huw Roderick (bore), *I'w drefnu* (hwyr)
- 24** Gwilym Tudur
- 30** *I'w drefnu*

---

## Y Gymdeithas

Cynhaliwyd boreau coffi ar Fedi 19eg a Thachwedd 7fed a chyfle i gymdeithasu dros baned a thrafod gweithgareddau'r tymor. Ar bnawn Mercher, Hydref 10fed cynhaliwyd gwasanaeth diolchgarwch a chymundeb dan ofal y Parchedig Ddr. Terry Edwards ac mae ein diolch yn ddiffuant iddo am ei wasanaeth. Ar derfyn yr oedfa cafwyd cyfle i gymdeithasu dros baned. Llinos Dafis, Llandre oedd ein gwraig wadd ar nos Fawrth, Tachwedd 20fed a chafwyd sgwrs ddiddorol tu hwnt ganddi am y "Merched yn fy Mywyd" - gan gychwyn yn nyddiau ei phlentyndod yn "Bw Stryd" ac ymlaen i'r presennol.

## Dyddiadau i'w Cofio 2019

- Ionawr 22ain, 7y.h.** Alaw Griffiths a chyfarfod blynyddol
- Chwefror 6ed, 10.30 – 12.00** Bore Coffi
- Chwefror 19eg, 7y.h.** Ailgylchu – Mererid Jones
- Mawrth 6ed, 10.30 – 12.00** Bore Coffi
- Mawrth 19eg** Pwyllgor y Gymdeithas
- Ebrill 3ydd, 10.30 – 12.00** Bore Coffi
- Ebrill 16eg, 7y.h.** Lowri Steffan



@seion 1816

[www.seionaberystwyth.cymru](http://www.seionaberystwyth.cymru)